

# Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

# Adroddiad Gwrthwynebiad

Ysgol Y Lawnt ac Gynradd Rhymni Uchaf



Cynnig : **Creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.**

Cyfnod Gwrthwynebu Statudol Ffurfiol: 8 Ionawr 2024 – 5 Chwefror 2024

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.



<b>TABL CYNNWYS</b>	
<b>Cyflwyniad</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Crynodeb Gweithredol</li> <li>➤ Rhwymedigaethau Statudol</li> <li>➤ Pwrpas yr Adroddiad Gwrthwynebu</li> </ul>	
<b>Cynnig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Beth rydym yn cynnig ei wneud?</li> </ul>	
<b>Y Broses Statudol a Gwneud Penderfyniadau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Y Broses Statudol</li> <li>➤ Ymateb y Cabinet i'r Adroddiad Ymgynghori</li> <li>➤ Gwneud Penderfyniadau</li> </ul>	
<b>Hysbysiad Statudol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hysbysiad Statudol - Proses Ymgynghori</li> <li>➤ Hysbysiad Statudol - Gwybodaeth Ymgynghori</li> <li>➤ Ymgysylltu â Rhanddeiliaid</li> </ul>	
<b>Gwrthwynebiad Statudol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ymatebion</li> <li>➤ Rhesymau dros y Gwrthwynebiad ac Eglurhad y Cyngor</li> </ul>	
<b>Ystyriaethau Eraill</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Llais y Dysgwr</li> <li>➤ Aseiad Effaith Integredig</li> </ul>	
<b>Y Camau Nesaf</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiad</li> <li>➤ Penderfyniad 'Adroddiad Gwrthwynebu' y Cabinet</li> <li>➤ Argymhelliad</li> <li>➤ Hysbysiad o'r Penderfyniad</li> </ul>	
<b>Gwybodaeth Ategol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Atodiad 1: Dogfen Ymgynghori / Adroddiad Ymgynghori</li> <li>➤ Atodiad 2: Integrated Impact Assessments (Original and Updated)</li> <li>➤ Atodiad 3: Hysbysiad Statudol a Gyhoeddwyd</li> <li>➤ Atodiad 4: Gwrthwynebiadau Statudol</li> </ul>	

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.



# CYFLWYNIAD

## Crynodeb Gweithredol

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw parhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu er mwyn creu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n addas i'r diben gan roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Mae'r cynnig i adleoli a rhoi lle i Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf mewn adeiladau ysgol Di-Garbon Net cynaliadwy gyda chyfleusterau a rennir wedi'i nodi fel prosiect o dan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd 2023, yn eu cyfarfod o bell ar 13 Rhagfyr 2023, cytunodd Cabinet y Cyngor yn unfrydol ar y cynnig i symud ymlaen i gyfnod Hysbysiad Statudol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

*PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:*

- 1. Ystyriwyd yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ymgynghori.*
- 2. Symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer cymeradwyo Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.*

## Hysbysiad penderfynu

[Eitem 5: Rhaglen Band B Cymunedau Dysgy Cynaliadwy - Adroddiad Ymgynghori: Cynnig Ysgol Y Lawnt/Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.](#)

### Gwrthwynebiadau Statudol

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion [Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013](#) a [Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018](#).

### Pwrpas yr Adroddiad Gwrthwynebu

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymatebion y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"), 2013 pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law.

Fel yr amlinellir yn Adran [Gwrthwynebiadau Statudol](#) y ddogfen hon, daeth 2 o wrthwynebiadau i law yn ystod cyfnod y Gwrthwynebiadau Statudol. Gan fod gwrthwynebiadau statudol wedi dod i law, mae'n ofynnol cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Pwrpas yr Adroddiad Gwrthwynebiadau hwn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Cabinet i wneud penderfyniad gwybodus trwy fyfyrto, adolygu ac asesu a ddylen nhw weithredu'r cynnig neu beidio.

Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n sawl adran gyda'r nod o:

- Amlinellu'r prosesau statudol a gynhaliwyd
- Rhoi eglurhad mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir a'r broses ymgysylltu ag ymgynghoreion
- Crynhoi pob un o'r Gwrthwynebiadau Statudol a gyflwynwyd gan ymgynghoreion
- Ymateb i'r Gwrthwynebiadau a gyflwynwyd drwy eglurhad, gyda rhesymau ategol

Mae manylion llawn y broses o wneud penderfyniadau a chamau'r cynnig fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori ac maent ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor gyda chopïau caled ar gael ar gais.

## CYNNIG

### **Beth rydym yn cynnig ei wneud?**

Fel yr amlinellir yn y [Ddogfen Ymgynghori](#) a'r [Adroddiad Ymgynghori](#), sydd wedi'u cyhoeddi ac sydd ar gael drwy wefan y Cyngor neu ar ffurf copi caled ar gais, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wedi dechrau ar daith gyffrous ond heriol o wella a newid.

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol fawr, hirdymor. Mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Rydym ni'n cynnig:

- **Adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

Mae'r cynnig am geisio creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.

Argraff artist



Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn aros yn endidau annibynnol, gyda'r dalgylchoedd presennol yn aros yr un fath a phob ysgol yn meddiannu eu hardaloedd addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd.

- Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleusterau ysgolion cynradd yn ogystal â gofal plant a darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig ar wahân ar gyfer pob ysgol, un gydag 8 lle ar gyfer cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle ar gyfer cyfrwng Saesneg.
- Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn cynnwys derbynfa ddwyieithog a rennir a chyfleusterau cymunedol hyblyg y gellir eu haddasu er enghraifft neuadd y gellir ei hisrannu a chegin ar wahân fel bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno yn y cyfrwng iaith priodol ar gyfer pob ysgol. Bydd cyfluniad y cyfleusterau hyn yn cael ei ddylunio mewn modd sy'n galluogi defnydd annibynnol gan bob ysgol yn y drefn honno os oes angen er mwyn lleihau'r amharu ar weithgareddau cyfredol neu eu hagor i'w defnyddio ar y cyd er mwyn darparu cydlyniant cymunedol ehangach.
- Bydd safle'r ysgol gynradd newydd wedi gwella gofod dysgu allanol a chyfleusterau a fydd yn cael eu gwahanu rhwng pob ysgol i darparu amgylcheddau addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a lles yr holl ddisgyblion.
- Bydd y prosiect arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth yr awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r adeilad cyfan, mewn partneriaeth ag Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Bydd y dyluniad yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi 'parthau' diogel y gellir eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Dylid nodi y byddai unrhyw ddarpariaethau cymunedol bresennol yn yr ysgolion presennol yn cael eu hannog i adleoli i'r safle newydd a fydd â chyfleusterau wedi'u huwchraddio.

Bydd pob ysgol yn cadw ei threfniadau Corff Llywodraethol presennol, fodd bynnag, bydd cydbwyllgor yn cael ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol i sefydlu telerau ac amodau ynglŷn â'r mecanweithiau gweithio sy'n ymwneud â chynnal a chadw, mynediad a pholisïau cyffredinol yn ymwneud â'r safle. yn ei gyfanrwydd.

Gan adeiladu ar y mandad Carbon Sero Net, mae ein cynnig wedi'i fframio i ddangos dyluniad arloesol a chydweithredol, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r dirwedd o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion.

## Y BROSES STATUDOL A GWNEUD PENDERFYNIADAU

### **Y Broses Statudol**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 wedi'i lunio o dan Adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n berthnasol i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Ysgol yng Nghymru yw honno, sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol feithrin a gynhelir. Nid yw hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ynglŷn â'r prosesau y mae angen cadw atynt a'r camau i'w dilyn:

- 1) Newidiadau lle mae cynnig yn ofynnol
  - Nodi'r cynnig
  - Datblygu'r cynnig
  
- 2) Ymgynghori
  - Cyhoeddi Dogfen Ymgynghori
  - Llythyr hysbysu at randdeiliaid (fel y'u pennir gan y cod)
  - Cynnal ymarfer ymgynghori
  - Ymgynghori â phlant a phobl ifanc
  - Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori
  - Llythyr hysbysu at randdeiliaid
  
- 3) Cyhoeddi Cynigion Statudol
  - Cyhoeddi Hysbysiad Statudol
  - Llythyr hysbysu at randdeiliaid
  
- 4) Pennu Cynigion
  - Cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu
  - Llythyr hysbysu at randdeiliaid
  - Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Lleol neu Weinidog Llywodraeth Cymru (gan ddibynnu ar natur y cynnig)
  - Hysbysiad o'r Penderfyniad
  - Llythyr hysbysu at randdeiliaid
  
- 5) Gweithredu Cynigion
  - Gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt

Mae cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hanfodol i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid addysg yng Nghymru a sicrhau gwell canlyniadau addysgol. Y nod yw sicrhau bod cynigion yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion, a lleihau anghydraddoldebau o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Wrth lunio cynnig, mae angen nodi'n glir y rhesymau dros lunio'r cynnig. Ymhlith y ffactorau sydd i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion mae Ansawdd a Safonau mewn Addysg, yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd, adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill. Amlinellir y ffactorau hyn yn y Ddogfen Ymgynghori ac eir i'r afael â hwy ymhellach yn yr Adroddiad Ymgynghori.

### **Ymateb y Cabinet i'r Adroddiad Ymgynghori**

Cafodd cyfarfod aml-leoliad ei gynnal (Tŷ Penallta ac MS Teams) 13 Rhagfyr 2023.

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, trafodwyd yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig. Roedd yr holl Ddogfennau Ymgynghori ar gael i aelodau fel rhan o'r pecyn adroddiadau agenda, gan gynnwys yr ymatebion gwreiddiol yn y fformat a ddaeth i law gan bob parti o fewn y cyfnod ymgynghori a oedd yn digwydd rhwng 28 Medi 2023 a 9 Tachwedd 2023. Roedd swyddogion sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gael i ateb cwestiynau.

Nodwyd i'r mater gael ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar [17 Hydref 2023](#) (yn rhinwedd ei swydd fel grŵp ymgynghori) ac, wedi hynny, ar [28 Tachwedd 2023](#) pan gytunwyd yn unfrydol ar yr argymhelliad i symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol.

Cytunwyd y byddai pleidlais mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei [chynnal a'i chofnodi'n swyddogol](#). Cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet y cynnig i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol.

### **Gwneud Penderfyniadau**

Mae dilyniant pob cam yn destun craffu, adolygu a chymeradwyaeth gan Aelodau'r Cabinet ac yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r broses fel un o'r partneriaid cyflawni allweddol a'r cyd-gyllidwyr.

Wrth gymeradwyo cynigion, mae'n rhaid i'r Cabinet:

- ystyried a oes unrhyw gynigion perthnasol eraill
- sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud ag Unedau Cyfeirio Disgyblion)
- sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol
- ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori
- ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n ategu'r cynigion (lle bo'n berthnasol)

Cynhyrchwyd yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn fel y cam nesaf yn y broses yn dilyn y Cyfnod Gwrthwynebu Statudol fel y'i diffinnir gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn yn destun craffu cychwynnol fel rhan o'r trafodaethau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol lle gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Gwrthwynebu a cheisio barn ar yr argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn cyn i'r Cabinet eu hystyried ar 3 Ebrill 2024.

Yna, bydd y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r cynnig ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen i weithredu fel yr argymhellwyd ai peidio.

## **HYSBYSIAD STATUDOL**

### **Hysbysiad Statudol - Proses Ymgynghori**

Mae'r broses ymgynghori wedi dilyn gofynion Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet a amlinellir uchod i symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol, roedd unrhyw un a oedd yn dymuno gwrthwynebu'r cynnig hwn yn gallu gwneud hynny. Er mwyn ei ystyried yn wrthwynebiad statudol, bu'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig. Cyfeirir at hyn fel y "cyfnod gwrthwynebu" sef y cyfnod rhwng 8 Ionawr 2024 i 5 Chwefror 2024.

## Hysbysiad Statudol - Gwybodaeth Ymgynghori

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor, wrth ymgymryd â phroses ymgynghori mewn perthynas â chynnig ysgol, gyhoeddi gwybodaeth i sicrhau proses gwneud penderfyniadau dryloyw, gytbwys ac agored.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar ddiwrnod ysgol a rhoddwyd 28 diwrnod i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 15 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol fel y'u diffinnir gan Adran 579 o Ddeddf Addysg 1996.

Cyhoeddwyd hysbysiadau ar 8 Ionawr 2024 fel a ganlyn:

- Ar wefan y cyngor
- Ar neu gerllaw prif fynedfa'r ddwy ysgol sy'n destun y cynnig
- Darparwyd copi'au caled o'r Hysbysiad Statudol i'r ysgol i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff.
- Hysbyswyd ymgynghoreion penodedig fel y'u rhestrir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennau yn Gymraeg a Saesneg, gan gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Hysbyswyd ymgynghoreion o'r cynnig, yr Hysbysiad Statudol a'r holl ddogfennau blaenorol a gyhoeddwyd yn ymwneud â'r cynnig drwy lythyr/e-bost pan aeth yn fyw ar 8 Ionawr 2024, ac felly fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan yn y cam hwn o'r ymgynghoriad statudol.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn pennu'r unigolion/grwpiau hynny yr ystyrir eu bod yn ymgynghoreion allweddol yn y broses ymgynghori. Yn unol ag adran 4.1 o'r cod, mae'r rhestr isod yn cyflwyno'r ymgynghoreion sy'n berthnasol i gynigion o'r math hwn ar gyfer Bwrdeistref Caerffili.

Tabl 1: Rhestr Ymgynghoreion	
Disgyblion a Chynghorau Disgyblion*	Gweinidogion Cymru
Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr*	Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn cynrychioli'r ardal a wasanaethir*
Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu*	Aelodau CBSC lleol
Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos	Cynghorau Cymuned a Thref Lleol
Cymdeithasau Staff Addysgu a Chymorth	Estyn
Rhwydwaith Rhieni	Fforwm Addysg Cymru
Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol	Consortiwm De-ddwyrain Cymru (Gwasanaeth Cyflawni Addysg)
Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Gwent a De Cymru	Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)



Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrinfeydd gwirfoddol
--	--

Yn ogystal, hysbyswyd unrhyw ymgynghorai a oedd wedi mynegi pryder yn flaenorol/a nododd ei fod yn dymuno i ni gysylltu ag ef fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod rhwng 28 Medi 2023 a 9 Tachwedd 2023.



## GWRTHWYNEBIAD STATUDOL

### Ymatebion

Yn gyffredinol, derbyniwyd cyfanswm 2 Gwrthwynebiad Statudol yn ystod cam Hysbysiad Statudol y broses ymgynghori.

Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiad statudol, bu'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u cyflwyno o fewn y Cyfnod Gwrthwynebu.

O'r dulliau a bennwyd ar gyfer darparu ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- Derbyniwyd 0 o ymatebion drwy lythyr
- Derbyniwyd 2 o ymatebion drwy e-bost

Cafodd 0 ymateb (0%) eu dychwelyd yn Gymraeg yn Saesneg.

Derbyniodd Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu 0 o geisiadau i'r ddogfennaeth gael ei darparu mewn fformat neu iaith arall.

### Rhesymau dros y Gwrthwynebiad ac Eglurhad y Cyngor

Yn unol ag Adran 5.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n rhaid i'r Cyngor, fel y cynigydd, gyhoeddi ei ymateb i'r gwrthwynebiadau cryno.

Er mwyn cynorthwyo'r Cabinet yn y broses benderfynu, bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu gan Swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â llunio'r cynnig drwy ymateb er mwyn cael eglurhad gyda rhesymau ategol.

#### ➤ Pellter Teithio

[Crynodeb y Gwrthwynebu:](#)

[Effaith y lleoliad newydd ar y rhai sy'n cerdded i Ysgol Y Lawnt ar hyn o bryd](#)

Eglurhad gan y Cyngor:

Tynnwyd sylw at y thema hon yn flaenorol ar ôl i ymgynghoreion godi pryderon ynghylch effaith y lleoliad newydd ar y rhai sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cychwynol. Mae ymateb eglurhaol ar gael ar dudalen 23 o'r [Adroddiad Ymgynghori](#).

➤ **Gweithrediadau ar y Safle**

Crynodeb y Gwrthwynebu:

Effaith sy'n ymwneud â sut byddai cyfleusterau fel y neuadd yn cael eu rhannu/llogi

Eglurhad gan y Cyngor:

Tynnwyd sylw at y thema hon yn flaenorol ar ôl i ymgynghoreion godi pryderon ynghylch sut byddai'r safle a chyfleusterau arfaethedig wedi'u rhannu'n gweithredu, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol. Darparwyd ymateb eglurhaol yn flaenorol ar dudalennau 25 a 26 o'r Adroddiad Ymgynghori.

➤ **Effaith ar y Gymraeg**

Crynodeb y Gwrthwynebu:

Effaith ar y Gymraeg a lles disgyblion trwy gydleoli

Eglurhad gan y Cyngor:

Tynnwyd sylw at y thema hon yn flaenorol ar ôl i ymgynghoreion godi pryderon ynghylch yr effaith ganfyddedig ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r posibilrwydd o wanhau o ganlyniad i leoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gyda'i gilydd, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol. Darparwyd ymateb eglurhaol yn flaenorol ar dudalennau 25 a 26 o'r Adroddiad Ymgynghori.

➤ **Suitability of current Ysgol Y Lawnt site for development**

Crynodeb y Gwrthwynebu:

Cwestiynu pam nad oedd modd symud ymlaen â'r opsiwn ar gyfer adeilad newydd neu estyniad ar y safle presennol

Eglurhad gan y Cyngor:

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalennau 26/27) a'r Adroddiad Ymgynghori (tudalen 9) cynhaliwyd proses arfarnu opsiynau, gan arwain at nodi 'Opsiwn a Ffafri'r' sydd wedi bod yn sail i'r ymgynghoriad hwn. Roedd ystyried datblygu safle presennol Ysgol y Lawnt yn un o'r opsiynau a ddiystyrwyd ar y cam dichonoldeb cychwynnol. Er ei fod yn ymddangos mewn egwyddor yn opsiwn ymarferol, mae gan y safle gyfyngiadau sylweddol. Mae gan Ysgol y Lawnt statws rhestredig CADW, gyda mynediad gwael a chyfleoedd cyfyngedig ar y tir ar gyfer ehangu neu adeiladu modiwlaid ychwanegol.



## YSTYRIAETHAU ERAILL

### Llais y Dysgwr

Mae llais y dysgwr yn ymwneud â chynnwys plant a phobl ifanc fel cyfranogwyr gweithredol yn y gwaith o ddatblygu, cyflwyno, rheoli a gwella eu profiad addysgol.

Drwy gydol pob cam o'r broses, mae plant a phobl ifanc yn yr ysgol arfaethedig yr effeithir arni wedi bod yn rhan o'r broses gynllunio ac ymgynghori fel yr amlinellwyd ac a welwyd yn y [Ddogfen Ymgynghori](#) a'r [Adroddiad Ymgynghori](#).

### **Asesiad Effaith Integredig**

Cynhaliwyd [Asesiad Effaith Integredig \(IIA\)](#) cychwynnol ar gyfer y cynnig hwn fel rhan o'r pecyn ymgynghori amlinellol sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn i roi cymorth i Aelodau'r Cabinet wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol wrth sicrhau cydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

Mae'r Asesiad Effaith Integredig bellach wedi'i adolygu i gynnwys unrhyw elfennau ychwanegol a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol. Pwrpas yr asesiad pellach hwn oedd ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i law yn ystod yr ymgynghoriad neu fel arall. Nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u nodi drwy'r broses hon.

## Y CAMAU NESAF

### **Cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau**

O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebiadau").

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gyflawni ei rwymedigaethau i'r Cyngor a bydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y Cyngor.

### **Penderfyniad 'Adroddiad Gwrthwynebu' y Cabinet**

Pan fo cynigion awdurdod lleol wedi derbyn gwrthwynebiadau, rhaid ystyried y gwrthwynebiadau'n gydwobodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Yn dilyn adolygiad yn y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Mawrth 2024, bydd y ddogfen hon yn cael ei hystyried yn llawn mewn cyfarfod o'r Cabinet sydd i'w gynnal ar 3 Ebrill 2024.

Yn y cyfarfod hwn, bydd y dogfennau canlynol ar gael i'r Aelodau.

- copi o'r [Ddogfen Ymgynghori](#)
- copi o'r [Adroddiad Ymgynghori](#)

- copi o'r [Hysbysiad Statudol](#) a gyhoeddwyd a'r [Llythyr Hysbysu](#) a anfonwyd at ymgynghoreion
- copi o'r yr [Asesiad Effaith Integredig](#)
- copi o'r Adroddiad Gwrthwynebu

Gofynnir i Aelodau'r Cabinet adolygu'r cynnig a gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig fel yr amlinellir isod:

- **Adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

**Mae'r cynnig am geisio creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.**

### **Argymhelliad**

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiadau hwn yn argymhell, yn unol â'r prosesau wedi'u hamlinellu yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a'r wybodaeth a gasglwyd a'i hadolygwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu ffurfiol, fod yr Aelodau:

- a) Yn ystyried yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau.
- b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet, a drwy bleidlais, symud ymlaen i'r cam cais cynllunio a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr achos busnes dilynol

### **Hysbysiad o'r Penderfyniad**

Rhaid i benderfyniadau (mewn perthynas â chynigion y mae angen eu cymeradwyo neu eu penderfynu) gael eu gwneud a'u cyhoeddi ar ffurf llythyr penderfynu. Rhaid i'r llythyr penderfynu nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad gan gyfeirio at God Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Bydd llythyr y Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor a bydd yr ymgynghoreion fel yr amlinellir yn Adran 5.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cael eu hysbysu drwy lythyr/e-bost fod y ddogfen ar gael.

## **GWYBODAETH ATEGOL**

### **Atodiad 1 :**

- [Ddogfen Ymgynghori](#)
- [Adroddiad Ymgynghori](#)
- [Hysbysiad Statudol](#)
- [Llythyr Hysbysu](#)
- [Aseiad Effaith Integredig](#)

### **Atodiad 2:**

#### **Datganiad Gwrthwynebiadau Statudol**

Bydd Aelodau'r Cabinet yn cael copïau llawn o'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn eu fformat gwreiddiol.

#### ***Adroddiad wedi'i baratoi gan:***

Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu  
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Ty Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
CF82 7PG

[Ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk](mailto:Ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk)